OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 507 (Cy. 120)

# ADNODDAU DŴR, CYMRU

## Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *12 Mai 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *14 Mai 2020* |
| *Yn dod i rym - -* | *15 Mai 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**) mewn perthynas â mesurau sy'n ymwneud ag adnoddau dŵr(**2**).

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 a deuant i rym ar 15 Mai 2020.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle rheoliad 4 (hyd y tymor ymdrochi) rhodder—

"**4.** For the purposes of these Regulations, the bathing season in Wales—

(**1**) 1972 p. 68. Diddymwyd Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ("Deddf 1972") gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) ("Deddf 2018") gan gael effaith o'r diwrnod ymadael ("exit day"). Mae "exit day" wedi ei ddiffinio yn adran 20 o Ddeddf 2018 fel 31 Ionawr 2020 am 11pm. Er gwaethaf y diddymiad hwnnw mae Deddf 1972 yn parhau i gael effaith gydag addasiadau tan ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu ("IP completion day"), yn rhinwedd adran 1A o Ddeddf 2018. Mewnosodwyd adran 1A gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1) ("Deddf 2020"). Mae "IP completion day" wedi ei ddiffinio yn adran 1A fel 31 Rhagfyr 2020 am 11pm (yr ystyr a roddir yn adran 39 o Ddeddf 2020). Diwygiwyd adran 2(2) o Ddeddf 1972 yn flaenorol gan adran 27(1) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7) a Rhan 1 o'r Atodlen iddi.

(**2**) Gweler O.S. 2003/2901 ar gyfer y dynodiad a roddir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn rhinwedd adrannau 59 a 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 28 o Atodlen 11 iddi, mae'r dynodiad hwnnw bellach wedi ei roi i Weinidogion Cymru. Mae O.S. 2003/2901 wedi ei ddirymu'n rhagolygol gan O.S. 2018/1011 o ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

(**3**) O.S. 2013/1675, wedi ei ddiwygio'n rhagolygol ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu gan O.S. 2019/558.

(a) subject to paragraph (b), begins on 15th May and ends at the end of the day on 30th September in each year;

(b) for the year 2020, begins on 22nd June and ends at the end of the day on 30th September."

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

12 Mai 2020

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau a nodir isod, ac yn y modd a eglurir, o ganlyniad i bwysau a blaenoriaethu gwaith sy'n gysylltiedig â'r feirws o'r enw'r Coronafeirws neu "coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2", sy'n achosi'r clefyd o'r enw "COVID-19".

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 4 o Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 er mwyn newid dyddiad cychwyn y tymor ymdrochi yng Nghymru am y flwyddyn 2020.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.